SUL CYFFREDIN 10

GENESIS 25:19-34; SALM 119:105-112;
RHUFEINIAID 8:1-11; MATHEW 13:1-9, 18-23

● **Gweddi agoriadol**
Yn dy enw ac er dy ogoniant
ymunwn â'n gilydd mewn undod.
Derbyn foliant ein genau,
a llawenydd ein calonnau
a gwasanaeth ein bywydau
yn y lle hwn
a phob eiliad o'n bywyd.

● **Moliant**
Mae hedyn dy air
wedi ei hau ar dir ffrwythlon
yn egino,
a bwrw gwreiddyn,
yn magu canghennau
na all chwyn dyfu danynt,
ac yna yn ffynnu,
blodeuo,
a chynhyrchu ffrwyth.

Am harddwch dy air
a heuwyd mewn calonnau ac eneidiau
a'r cynhaeaf rhyfeddol sydd i ddod,
am gymaint o'th faeth daionus,
molwn di, Dduw Greawdwr.

● **Cyffes**

Mae dy air,
y llusern honno i'n traed,
yn dangos i ni
y tir caregog
y sangwn arno mor aml.
Yno, yn baglu yn ein gwendid,
estynnwn ein llaw
i ti afael ynddi,
a gofyn yn unig
i ti ein harwain
unwaith eto
i dir cadarnach,
tuag at y graig
lle dechreuodd ein taith,
ble cawn orffwys
yn ddiogel.

● Diolch

Arglwydd, bendithiwyd ni yn fawr,
ni y rhai y gosodwyd ein calonnau
yn rhydd drwy Iesu Grist,
ni sydd â'n dymuniad i'w nabod yn well,
i synhwyro'i bresenoldeb,
a phrofi bywyd yn ei holl lawnder.

Arglwydd, bendithiwyd ni yn fawr,
ni yr adnewyddwyd ein bywydau
gan dy drugaredd a'th ras,
a, drwy dy Ysbryd,
ein harfogi i wasanaeth,
i fod yn ddwylo i ti
yn dwyn iechyd,
ac yn llais i ti
yn dwyn cysur
ble bynnag y mae angen.

Arglwydd, bendithiwyd ni yn fawr!